Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.11.2020

## Rheoliadau Coronafeirws newydd 9 Tachwedd 2020

Mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan yn y Senedd ddoe, 3 Tachwedd 2020, y bydd rheoliadau newydd i'w cyflwyno ar 9 Tachwedd 2020 yn caniatáu i lawer o fusnesau sy'n agored i'r cyhoedd, ac yr oedd yn ofynnol iddynt gau yn ystod y cyfnod atal byr, i ailagor. Bydd caniatâd i grwpiau o hyd at bedwar o bobl gyfarfod mewn lleoliad a reoleiddir megis bwyty, caffi neu dafarn, ond y bydd hyn yn destun rheoliadau llym a drafodir gyda'r sector lletygarwch, gan gynnwys archebu ymlaen llaw, slotiau amser cyfyngedig ac adnabyddiaeth wedi'i ddilysu. Unwaith y bydd y canllawiau ynglŷn â hyn wedi eu cyhoeddi, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

## Estyniad i Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – SEISS

Mae'r grant yn cael ei estyn o 1 Tachwedd 2020 ymlaen ac ar gael mewn ffurf dau grant, bob un ar gael am gyfnod o dri mis, yr un yn cwmpasu Tachwedd 2020 hyd at Ionawr 2021, ac un yn cwmpasu Chwefror 2021 hyd

at Ebrill 202. Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer y grant nesaf ar gael o 30 Tachwedd 2020 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/self-employment-income-support-scheme-grant-extension.cy

# Ymestyn y Cynllun Ffyrlo

Bydd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws – a elwir hefyd y cynllun Ffyrlo – yn parhau ar agor tan fis Rhagfyr, a bydd gweithwyr cyflogedig yn derbyn 80% o'u cyflog cyfredol am yr oriau nad ydynt yn gweithio, hyd at uchafswm o £2,500. Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys sut i hawlio am y Cynllun Cadw Swyddi ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/ymestyn-y-cynllun-ffyrlo

# Cymorth digidol am ddim gan CCIF i helpu cynyddu sgiliau busnesau lleol

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau (CCIF) yn cynnig gweminarau am ddim a chyngor 1:1 i helpu perchnogion busnes loywi eu sgiliau a dod yn fwy hyderus gyda thechnolegau digidol er mwyn gallu rhedeg a marchnata eu busnesau ar-lein. Yn ystod y pandemig, mae wedi bod yn bwysicach nag erioed i greu cysylltiadau a mynd ar-lein, felly, os ydych chi'n berchennog busnes sydd angen help gyda thechnoleg digidol, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau

# Gweminarau Hwb Menter @ M-SParc

Mae Hwb Menter @ M-SParc yn cynnig gweminarau cefnogaeth busnes am ddim y mis yma. Am ragor o wybodaeth ac i archebu eich lle ewch i:

https://bit.ly/EventbriteMSparc

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru